PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 15 AWST 2024

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr:

S.M. Allen	J.M. Charles	T. Davies	J.K. Howell
J.D. James	M.J.A. Lewis	B.D.J. Phillips	E. Skinner
G.B. Thomas	M. Thomas	D.E. Williams	S. Williams

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd D. Nicholas a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/02167

Hefyd yn bresennol :
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Martin, Cyfreithiwr
Z.A. Evans, Peirianydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)
T. Boothroyd, Swyddog Rheoli Datblygu ar gyfer Mwynau a Gwastraff
F. Williams, Cynorthwy-ydd Rheoli Datblygu (Mwynau a Gwastraff)
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 1.55 yp

[**SYLWER:** Am 12:50pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers bron tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, M. Donoghue a R. Sparks.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
S.M. Allen	3.1 – PL/06515 – Datblygiad Preswyl Arfaethedig (Anheddau	Aelod gwirfoddol ar Fwrdd Cyfarwyddwyr

	Fforddiadwy), Ffordd Fynediad a Seilwaith Cysylltiedig, tir oddi ar Dol y Dderwen, Rhydaman, SA18 2GA	Cymdeithas Tai Bro Myrddin – yr ymgeisydd
D. Phillips	3.1 – PL/07482 – Codi llinell y to 1.2m ac ychwanegu 2 ffenestr ar y llawr cyntaf. Ychwanegu drws allanol a ffenestr i'r llawr gwaelod ar yr ochr ddeheuol. Gosod ffenestri a drysau UPVC newydd, bwthyn y tu ôl i'r Lamb Inn, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA23 OEL	Cyfarwyddwr y cwmni sy'n gwneud y cais

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/06515	**Datblygiad Preswyl Arfaethedig (Anheddau Fforddiadwy), Ffordd Fynediad a Seilwaith Cysylltiedig, tir oddi ar Dol y Dderwen, Rhydaman, SA18 2GA** (SYLWER: Datganodd y Cynghorydd S.M. Allen, wrth ystyried yr eitem hon, ei bod yn aelod gwirfoddol o Fwrdd yr ymgeisydd a gadawodd y cyfarfod yn brydlon heb gymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad).
PL/06840	**Mynediad newydd i'r goedwig o'r briffordd gyfagos, Coedwig Cefn Ystrad Ffin, Rhandirmwyn**
PL/07482	**Codi llinell y to 1.2m ac ychwanegu 2 ffenestr ar y llawr cyntaf. Ychwanegu drws allanol a ffenestr i'r llawr gwaelod ar yr ochr ddeheuol. Gosod ffenestri a drysau UPVC newydd, bwthyn y tu ôl i'r Lamb Inn, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0EL** (SYLWER: Gan fod y Cynghorydd D. Phillips wedi datgan diddordeb yn y cais hwn yn gynharach, gadawodd y cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y penderfyniad ynghylch yr eitem).
PL/07904	**Amrywio Amod 1 ar gais PL/04555 (Newid defnydd dros dro (24 mis) o uned adwerthu wag (dosbarth A1) i ddepo cerbydau gyda swyddfeydd a lleoedd parcio cysylltiedig), 24A Heol Stanllyd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RB**

3.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:

PL/02167	**Adeiladu a gweithredu cyfleuster ailgylchu gwastraff anadweithiol, prosesu gwastraff a gwaith cysylltiedig gan gynnwys adeiladu bwnd sgrinio, Chwarel Cilyrychen, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3JE** Cafwyd sylwadau yn gwrthwynebu'r cais a ailbwysleisiai'r pwyntiau gwrthwynebu yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, a oedd yn cynnwys y canlynol: · Effaith traffig lorïau ychwanegol i'r safle ac oddi yno ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chymunedau o ran sŵn, llwch, llygredd aer, mwd ar y briffordd a gollwng deunydd o lwythi wedi'u diogelu'n amhriodol · Mae'r ysgol leol yn Llandybïe wedi'i lleoli 100m o'r A483 drwy Landybïe ac mae croesfan yr ysgol mewn man cul · Diffyg llwybr cyhoeddus ar y naill ochr a'r llall i'r A483 o ymyl y pentref i'r ffordd fynediad i Gilyrychen · Nid oedd yr ymgeisydd wedi cynnal arolwg traffig na monitro llygredd · Yn seiliedig ar lefelau traffig pan oedd y chwarel yn weithredol, roedd tua 70 o lorïau sgipiau yn cyrraedd yn llawn ac yn gadael yn wag bob dydd, ynghyd â 70 o lorïau codi a oedd yn cyrraedd yn wag ac yn gadael yn llawn, sy'n cyfateb i symudiad gan gerbyd nwyddau trwm bob 2 funud · Effaith y cynnig ar y fflora a'r ffawna yn y chwarel · Effaith ar y tirlyn gerllaw (yr unig un a nodwyd yn y DU) a'r llyn oligotroffig yn y chwarel · Mae'r cynnig yn gwrthdaro â TAN 21 lle mae'n nodi y "dylai awdurdodau ystyried lleoliadau addas ar gyfer 'chwareli trefol'. Dadleuwyd nad oedd Cilyrychen yn un o'r lleoliadau hynny. · Ystyrid, unwaith y byddai'r holl agregau eilaidd presennol ar y safle wedi'u cynaeafu, y byddai'n rhaid i'r holl ddeunydd a brosesir ar y safle i'w ailgylchu yn y dyfodol gael ei fewnforio a'i drin gan y gwasgydd symudol. Gofynnwyd pam na ellid mynd â'r gwasgydd hwnnw i ffynhonnell y deunydd. Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff i'r materion a godwyd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

	RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i weld y safle ac asesu ei effaith ar yr amgylcheddau lleol.

3.3 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ar y sail bod y Pwyllgor o'r farn bod y cynnig yn cydymffurfio â darpariaethau TAN 6, yn arbennig paragraffau 2.1.1, 2.2.2, 2.2.4 a 3.14. Rhoddwyd y caniatâd ar yr amod bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 sy'n cysylltu'r eiddo â'r fenter wledig.:-

PL/06346	**Amrywio Amod 2 (cynlluniau cymeradwy) caniatâd cynllunio E/39636 i ganiatáu newid dyluniad yr annedd amaethyddol a gymeradwywyd yn flaenorol o dan E/39636 – Annedd Amaethyddol a Gwaith Cysylltiedig, Brynawelon, Llanfynydd, Caerfyrddin, SA32 7TG**

4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 15 Awst 2024.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 GORFFENNAF 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 yn gofnod cywir.

CHAIR **DATE**